



Dros E-bost

20 Hydref 2020

Annwyl

Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rydym yn ysgrifennu atoch fel swyddogion y tri undeb llafur cydnabyddedig yn Amgueddfa Cymru (AC) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC). Mae mwy na degawd o ostyngiadau parhaus mewn Cymorth Grant (GIA) wedi gadael AC a LIGC â diffygion sylweddol. Mae diffygion blynyddol y ddau sefydliad yn rhai strwythurol ac - oherwydd bod y cronfeydd wrth gefn mor isel - maen nhw'n peryglu hyfywedd ariannol Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Roedd adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd ar effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru, yn cydnabod bod sefyllfa ariannol enbydus y ddau sefydliad wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

Yn benodol, mae tri ffactor sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ariannol:

1. Mae cymorth grant 2020 wedi cael ei dynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn: **£440,000** ar gyfer AC, a **£200,000** ar gyfer LIGC.
2. Mae'r refeniw ymwelwyr wedi gostwng yn sylweddol - yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw **£1.8 miliwn** ar gyfer AC, a **£600,000** ar gyfer LIGC.
3. Mae'r ddau sefydliad wedi wynebu costau annisgwyl ychwanegol er mwyn darparu offer i staff weithio gartref, a pharatoi safleoedd i ailagor: **£75,000** ar gyfer LIGC, a chyfanswm cyfunol o **£250,000** ar gyfer saith safle AC.

Heb gyllid ychwanegol ar ffurf cymorth grant, mae'n anodd gweld sut gall AC a'r LIGC fwrw ymlaen â'r gwaith ar brosiectau cynnal a chadw cyfalaf hanfodol. Mae chyfanswm cyfunol y gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar gyfer AC yn unig dros **£80 miliwn** erbyn hyn, ac mae tua un rhan o bump yn waith hanfodol a brys. Mae'r ddau sefydliad yn rhan o wead hanes diwylliannol Cymru ac mae'n rhaid eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae'r pwysau ariannol hefyd yn peryglu gallu AC a'r LLGC i ddigidoleiddio cynnwys, a drwy hynny i wneud casgliadau cenedlaethol yn fwy hygyrch i ddinasyddion ledled Cymru.

Mae'r Adolygiad Pwrpasol o'r Llyfrgell Genedlaethol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cydnabod nad yw'r model cyllido presennol yn gynaliadwy. Yn wir, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae graddfa diffyg ariannol y Llyfrgell Genedlaethol yn peryglu hyd at **30 o swyddi, neu 13% o'r gweithlu.**

Mae'n anodd asesu gwerth AC a'r LLGC mewn termau economaidd, ond roedd Cynllun Gweithredol 2018/19 AC yn cyfrifo bod pob £1 y mae Lywodraeth Cymru yn ei buddsoddi yn AC yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru. **Mae hynny'n cyfrannu £83 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) at economi Cymru** - dyna yw'r GVA uchaf ar gyfer unrhyw sefydliad diwylliannol sy'n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru.

Er y byddai un chwistrelliad ariannol i'w groesawu, ni fydd hynny'n datrys y problemau tymor hir a achoswyd gan ddiffygion strwythurol.

Dyna pam rydym yn gofyn i chi sicrhau bod eich maniffesto ar gyfer etholiad 2021 yn cynnwys ymrwymiad i unioni mwy na ddegawd o doriadau i GIA, drwy gyflwyno model cyllido newydd a chynaliadwy. Model cyllido wedi'i seilio ar gynnydd sylweddol mewn GIA i ganiatáu i'r ddau sefydliad ffynnu a sicrhau eu dyfodol tymor hir. Model cyllido i gefnogi diwylliant Cymru ac i ddiogelu swyddi yng Nghymru.

Hoffem drafod y mater hwn gyda chi. Yn ddiolchgar pe gallai rhywun o'ch swyddfa gysylltu â Gareth Hills i drefnu cyfarfod gyda chi'ch hun a'r tri undeb.

Yn gywir

Gareth Hills

Swyddog Cenedlaethol
FDA Cymru

Sian Wiblin

Swyddog PCS Cymru

Daniel Maney

Swyddog Prospect Cymru